# Taflen Wybodaeth

## Llywodraethu

### Cyflwyniad

Nod y ddogfen hon yw darparu ychydig o wybodaeth ychwanegol am lywodraethu, pam y mae'n bwysig inni a sut y defnyddiwn lywodraethu parthed Grantiau Celfyddydol i Sefydliadau.

Mae'r ffeithlen yn cynnwys canllawiau cyffredinol yn unig ac ni ddylid ei ystyried yn gyngor cyfreithiol neu fusnes.

## Beth yw llywodraethu?

Gellir ei ddisgrifio fel a ganlyn:

"*y systemau a'r prosesau sy'n ymwneud â sicrhau cyfeiriad, goruchwyliaeth ac atebolrwydd cyffredinol y sefydliad*"[1].

Mewn geiriau eraill, yr holl bethau sy'n ymwneud â sicrhau y rhedir sefydliad yn effeithiol a phriodol fel y gweithia i gyflawni ei amcanion. Golyga hyn ystod o bethau o gydymffurfedd â gofynion cyfreithiol a rheoleiddio i'r gwaith beunyddiol.

### Beth yw dogfen lywodraethol?

Disgrifia eich dogfen lywodraethol sut y mae eich sefydliad yn gweithio. Disgrifia hefyd bwrpas gwaelodol eich sefydliad a sut y cyflawna hwn.

Arferwn "dogfen lywodraethol" yn derm cyffredinol. Gall fod sawl enw ar eich dogfen lywodraethol chi (er enghraifft - cyfansoddiad, gweithred ymddiriedolaeth neu erthyglau cwmni); dibynna ar ffurf gyfreithiol eich sefydliad.

[1] *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol i Ymddiriedolwyr ac Aelodau o Bwyllgor Rheoli yn y Sector Gwirfoddol a Chymunedol.*

Llyfr rheolau eich sefydliad yw'ch dogfen lywodraethol yn y bôn. Disgrifia'r holl gamau ymarferol am sut y rhedir sefydliad. Yn gyffredinol, dylai gynnwys:

- Enw eich sefydliad a'i bwrpas (ei 'amcanion')
- Sut y cyflawna'r amcanion hyn (ei 'bwerau')
- Pwy sy'n rhedeg eich sefydliad a sut i ymaelodi
- Sut yr etholir/penodir eich corff llywodraethu, pa mor aml y mae'n ymgyfarfod a sut y gwna benderfyniadau
- Sut y rheola eich sefydliad ei arian
- Yr hyn sy'n digwydd os oes raid gwneud newidiadau i'ch dogfen lywodraethol
- Yr hyn sy'n digwydd i'ch asedau os paid eich sefydliad â bodoli (cymal diddymu)

Darpara'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau gyngor am ddogfennau llywodraethu, gan gynnwys dogfennau model a thempledi ac isod mae dolenni i'r sefydliadau hyn.

Beth yw corff llywodraethu?

Y grŵp o bobl sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol ac ariannol am eich sefydliad yw'ch corff llywodraethu. Mae'n derm cyffredinol; dibynna ei union enw ar ffurf gyfreithiol eich sefydliad.

Dylai cyrff llywodraethu fod yn dryloyw, atebol a dylent weithio gydag uniondeb. Mae sawl cod o'r ymarfer orau ar gael sy'n disgrifio swyddi a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu a all fod o gymorth i'ch sefydliad weithio yn y ffordd orau. Isod mae gwybodaeth bellach am y dogfennau hyn.

Pam y mae llywodraethu'n bwysig inni?

Cymerwn y cyfrifoldeb o ddosbarthu arian y cyhoedd o ddifrif. Mae arnom angen bod yn siŵr bod eich sefydliad wedi'i sefydlu'n gywir ac y gall reoli grant yn briodol. Ni roddwn grant os gwelwn berygl na reolir arian y cyhoedd yn iawn.

Gwyddom fod llywodraethu da yn hanfodol i unrhyw sefydliad lwyddo. Gwyddom hefyd bod llywodraethu da yn sail ardderchog i gyflawni prosiectau llwyddiannus: os rhedir eich sefydliad yn dda mae mwy o bosibiliad y rhedir unrhyw brosiect a ariannwn hefyd yn dda.

Dyma pam y mae deall sut y rhedwch eich sefydliad yn bwysig inni. Un o'r ffyrdd y gwnawn hyn yw sicrhau y diwellwch ein gofynion cymhwysedd. Disgrifia ein dogfen, *Cychwyn,* sut y

defnyddiwn lywodraethu felly. Gallem hefyd ystyried sut y rhedwch eich sefydliad yn ystod y broses asesu.

### Am beth y chwiliwn?

Disgwyliwn i'r holl wybodaeth a roddwch inni fod mor gywir a chyfredol â phosibl. Os gwelwn unrhyw achos pryder, archwiliwn hyn yn drylwyr.

Gallem wirio bod y wybodaeth yn eich cais yn gyson ag unrhyw wybodaeth arall a roesoch inni neu â gwybodaeth sy'n gyhoeddus megis:

- gwybodaeth sydd ar eich gwefan neu sydd ar gael drwy gyfrwng eich cyfryngau cymdeithasol

- gwybodaeth y gallwn ddod o hyd iddi drwy chwilio'r rhyngrwyd neu

- gwybodaeth a ddelir gan gyrff rheoleiddio megis y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.

Gallem chwilio am dystiolaeth eich bod yn dilyn eich gofynion llywodraethu eich hun fel y disgrifir hwy yn eich dogfen lywodraethol. Er enghraifft, a weithredwch eich polisïau ariannol eich hun a'ch polisïau am amlder eich cyfarfodydd a'ch ffordd ddemocrataidd o benderfynu ar faterion? A ydych yn gweithio yng nghwmpas pwerau eich sefydliad? Pa mor dynn yr ydych yn glynu at amcanion eich sefydliad?

Gallwn wrthod eich cais os nad ydym yn fodlon ar ganlyniadau ein harchwiliadau. Os cawsoch y grant eisoes, efallai y bydd yn rhaid ichi ad-dalu'r grant hwnnw.

### Bandiau sy'n ymgeisio i'r maes Datblygu Diwydiant Cerdd o *Grantiau Celfyddydol i Sefydliadau*

Ar gyfer bandiau, deallwn y gallai'r gofynion ymddangos yn amhriodol. Serch hynny mae'n arfer orau gydnabyddedig i fandiau fod â chytundeb partneriaeth ysgrifenedig ar waith sy'n disgrifio sut y rhedwch eich band. At ddibenion cymhwysedd, eich cytundeb partneriaeth band yw eich dogfen lywodraethol.

Darllenwch ragor am gytundebau partneriaeth yn ein dogfen am faes Datblygu Diwydiant Cerdd.

Darpara Undeb y Cerddorion wybodaeth am gytundebau partneriaeth. Mae manylion yr Undeb isod.

## Sefydliadau a Chyhoeddiadau Defnyddiol

Gall y sefydliadau a'r cyhoeddiadau canlynol ddarparu gwybodaeth bellach am wahanol agweddau ar lywodraethu.

Er gwybodaeth yn unig mae'r manylion hyn. Ni chymeradwywn unrhyw un o'r sefydliadau hyn ac nid ein cyfrifoldeb ni yw eu cyngor neu gynnwys eu gwefannau a'u cyhoeddiadau. Ni ddylent gymryd lle cael cyngor cyfreithiol/busnes penodol oddi wrth berson proffesiynol yn y maes.

### Y Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr

*The Hallmarks of an Effective Charity (CC10)*
https://www.gov.uk/government/publications/the-hallmarks-of-an-effective-charity-cc10

I gael gwybod sut y gall ymddiriedolwyr elusen bennu safonau a gwella effeithiolrwydd gwaith eu helusen.

*Charity types: how to choose a structure (CC22a)*
https://www.gov.uk/guidance/charity-types-how-to-choose-a-structure

Mae'r ddogfen hon yn gymorth i sefydliadau benderfynu a ddylent sefydlu Sefydliad Elusennol Corfforedig, cwmni elusennol neu gymdeithas neu ymddiriedolaeth anghorfforedig.

*How to write your charity's governing document (CC22b)*
https://www.gov.uk/guidance/how-to-write-your-charitys-governing-document

Yma yr esbonia'r Comisiwn Elusennau sut i ddisgrifio pwrpas a rheolau eich elusen yn ei dogfen lywodraethol, sut i ddechrau ei defnyddio a sut i'w newid. Darpara hefyd dempledi model ar gyfer y ddogfen lywodraethol i sefydliadau, o'r cymdeithasau anghorfforedig i sefydliadau elusennol corfforedig a chwmnïau elusennol.

*Charity trustee: what's involved (CC3a)*
https://www.gov.uk/guidance/charity-trustee-whats-involved

I gael gwybod beth sydd ynghlwm wrth fod yn ymddiriedolwr elusen, os gellwch hawlio treuliau a lle i gael cymorth a chyngor.

### Tŷ'r Cwmnïau
https://www.gov.uk/topic/company-registration-filing/starting-company

Darpara Tŷ'r Cwmnïau lawer o wybodaeth am sefydlu a rhedeg cwmni gan gynnwys templedi model am erthyglau cwmni.

Undeb y Cerddorion
http://www.musiciansunion.org.uk/Home/Advice/Your-Career/Legal/Specimen-Agreements

Darpara Undeb y Cerddorion ystod o gytundebau enghreifftiol a'r canllawiau cysylltiedig gan gynnwys cytundebau partneriaeth.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Darpara Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ystod eang o wybodaeth am bob agwedd ar redeg sefydliad yn y trydydd sector gan gynnwys:

*Llywodraethu Da: cod i'r trydydd sector yng Nghymru*
http://www.wcva.org.uk/media/45540/wcva_good_governance_guide_w.pdf

Nod y 6 egwyddor yn y Cod yw cynorthwyo aelodau bwrdd i arwain yn gryf, gwella eu penderfynu ac arddangos eu hatebolrwydd.

*Archwiliad Iechyd Llywodraethu*
http://www.wcva.org.uk/media/258960/archwiliad_iechyd_llywodraethu.pdf

Mae'n becyn gwybodaeth am hunanasesu i sefydliadau gwirfoddol

*Adeiladu ar graig nid ar dywod*
http://www.wcva.org.uk/media/249899/adeiladu_ar_graig_nid_ar_dywod.pdf

Nod y llawlyfr yw cynorthwyo ymddiriedolwyr i ddelio â'u cyfrifoldebau rheoli gan gynnwys cynllunio strategol, bod yn atebol am ddatblygu sefydliadol, rheoli pobl ac arian a phenderfynu er budd y sefydliad gwirfoddol.

*Taflenni Gwybodaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru*
http://www.wcva.org.uk/advice-guidance/trustees-and-governance/information-sheets?seq.lang=cy-GB

Cynhyrchodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru daflenni gwybodaeth am y pynciau canlynol:

- Egwyddorion llywodraethu
- Dyletswyddau a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr
- Y corff llywodraethu a swyddogion anrhydeddus
- Hyfforddiant a datblygiad ar gyfer ymddiriedolwyr
- Atebolrwydd llywodraethwyr ac aelodau corff llywodraethu

## Ymwadiad

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth a roddwn yn gywir. Nid ydym yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb, a thrwy hyn rydym yn gwadu unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw un am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan gamgymeriadau neu fylchau yn y wybodaeth a ddarparwn, boed y camgymeriadau neu'r bylchau hyn wedi'u hachosi gan esgeulustod, damwain neu unrhyw reswm arall.